RhannuCeirCaerdydd.com

CYLCHLYTHYR

Cyngor Caerdydd : Ffôn (029) 2087 2000 Rhifyn 3

Tymor yr Hydref 2007

ERTHYGLAU ARBENNIG :

• 1 mewn 5

• Nodweddion Aelodau

• Diflastod Teithio'r Hydref

• Newid Dulliau Teithio

CROESO I GYLCHLYTHYR YR HYDREF AR GYFER RHANNUCEIRCAERDYDD.COM

Mae RhannuCeirCaerdydd yn gynllun Rhannu Siwrnai cwbl ddwyieithog, sydd wedi'i gynllunio i roi ffordd gyfleus a diogel i'r aelodau gael hyd i gydymaith teithio.

Bu'r cynllun yn rhedeg ers Gorffennaf 2004 ac mae wedi cynyddu'n gyson, gan gynnig cyfle gwell i chi gael hyd i'r cydymaith teithio delfrydol!

Cyngor Caerdydd sy'n rhedeg y cynllun ac mae ar gael i unrhyw sefydliad yn y ddinas.

Gall pawb, bron, Rannu Siwrnai o leiaf unwaith yr wythnos. Gall eich helpu i arbed arian, gwella eich ffitrwydd trwy

gerdded neu seiclo a helpu i leddfu pwysau parcio

a all ddod yn sgil cymudo! **A roesoch gynnig ar 1 mewn 5?**

Eleni bu Cyngor Caerdydd yn annog ei weithwyr, aelodau sefydliadau RhannuCeirCaerdydd a phobl sy'n gweithio i fusnesau canol y ddinas i 'Roi cynnig ar 1 mewn 5'. Gwahoddwyd pawb i wneud addewid personol i deithio i'r gwaith neu'r coleg gan ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy (gan gynnwys rhannu ceir) ar o leiaf un diwrnod yn Wythnos Teithio Glân Ewrop.

Cewch wybodaeth am y mathau o gynlluniau a gynigiwyd gan ddinasoedd eraill trwy ymweld â gwefan Wythnos Teithio Glân Ewrop. Byddem wrth ein bodd yn cael gwybod sut hwyl y cawsoch! Rhowch wybod i ni pa mor hwylus oedd y profiad a pha drefniadau arbennig a wnaethoch er mwyn cymryd rhan. E-bostiwch ni ar itwmc2007@cardiff.gov.uk i roi eich hanes personol i ni!

Poster Rhannu Siwrnai Newydd

Gwyliwch allan am y poster newydd ar gyfer rhannu siwrnai. A allwch chi gynyddu maint eich grŵp rhannu ceir?

Newyddion UWIC.

Mae'n dymor newydd yn UWIC a'r myfyrwyr wedi dechrau ar eu cyrsiau. Eleni, yn ogystal â hyrwyddo teithio gwyrdd gyda Bws UWIC, mae'r Brifysgol wedi lansio grŵp myfyrwyr ar CarShare2Cardiff.com. Bydd y myfyrwyr sy'n ymuno â'r cynllun ac yn rhannu ceir i fynd i'r coleg yn manteisio ar lefydd parcio neilltuedig ac yn cael bathodyn arbennig i'w arddangos yn eu cerbydau.

Yn ddiweddar, mae UWIC wedi croesawu aelod newydd o staff i'r Tîm Cynllun Teithio.

Bydd Amy Evans, y Cynorthwy-ydd Cynllun Teithio newydd, yn cefnogi cynnydd Cynllun Teithio UWIC ac yn helpu i weinyddu a hyrwyddo cynllun Rhannu Ceir UWIC.

Newyddion Asiantaeth yr Amgylchedd

Bu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cynnal digwyddiad i roi gwybodaeth am deithio cynaliadwy yn Hydref, i hyrwyddo dulliau trafnidiaeth amgen ym mhlith eu gweithwyr. Wrth iddi fynd yn anos parcio ar safle Llaneirwg, mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn awyddus i annog eu staff i deithio i'w gwaith mewn modd mwy cynaliadwy. Roedd PTI Cymru yno i gynnig Cynlluniau Siwrneiau Personol i'r staff a bydd Bws Caerdydd yn gallu rhoi cyngor ynghylch ei wasanaethau ar gyfer yr ardal a hyrwyddo'r Cynllun 'Cardiff to Go'. Bydd RhannuCeirCaerdydd hefyd yn cael ei hyrwyddo i'r gweithwyr trwy is-weinyddwr y sefydliad. Mae'n hawdd iawn dewis Rhannu Ceir yn lle teithio mewn car ar eich pen eich hun, a chyda Hyder Consulting drws nesaf, bydd yn llawer iawn haws cael hyd i gydymaith teithio.

Newyddion Cyngor Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd wedi cael cymeradwyo ei ail Gynllun Teithio safle-benodol ac mae'n parhau i weithio i gyflwyno'r mesurau a nodir yng Nghynllun Teithio Neuadd y Sir. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi gwneud cais llwyddiannus i Gyngor Chwaraeon Cymru am grant i gyllido gwelliannau i'r ystafelloedd newid a'r cawodydd yn Neuadd y Sir.

Gwariwyd cyfran o'r grant ar ddarparu beiciau i'w cyd-ddefnyddio, ystafell sychu ar gyfer dillad gwlyb a thaflenni gweithgareddau i'r gweithwyr.

Prif amcanion y cynllun yw gwella iechyd a lles gweithwyr yn Neuadd y Sir a chynyddu'r niferoedd sy'n cerdded neu seiclo.

Gwnaed cais hefyd am gyllid i ddarparu cyfleusterau cyfatebol yn Neuadd y

Ddinas yn y dyfodol agos. Bydd y cyfleusterau hyn ar gael i bobl sy'n mynychu digwyddiadau a chynadleddau yn Neuadd y Ddinas.

Cefnogir y bidiau hyn gan Sustrans. Mae Grantiau Cyngor Chwaraeon Cymru ar gael i sefydliadau eraill.

YMUNWCH Â'R MUDIAD sustrans JOIN THE MOVEMENT

Llond Bol ar Deithio'r Hydref?

Yn aml, byddwn yn newid ein trefniadau teithio ar ddechrau'r hydref. Efallai na fydd seiclwyr a cherddwyr yr haf yn teimlo'r un brwdfrydedd am fod allan yn yr oerfel a'r tywyllwch, gan eu bod yn aml yn bryderus ynghylch eu diogelwch personol a damweiniau ar y ffyrdd.

Cofiwch fod aelodau RhannuCeirCaerdydd yn gallu rhannu tacsi, neu ddal bws gyda'i gilydd hyd yn oed, yn ogystal â rhannu car! Ewch i'ch tudalen gartref bersonol a thiciwch yr opsiwn i ganfod cymdeithion ar gyfer y dulliau trafnidiaeth eraill hyn.

Cofiwch fod digonedd o



ddyddiau braf hefyd i gael awyr iach trwy gerdded neu seiclo, hyd yn oed yn y gaeaf!

Remember that there are plenty of really nice days to be out and about using

Newid Dulliau Teithio

Mae Cyngor Caerdydd wedi canfod mai un o'r ffactorau pwysicaf o ran helpu pobl i newid eu dulliau teithio yw darparu gwybodaeth am y dewisiadau eraill.

Yn aml iawn, nid yw pobl yn siŵr beth sydd ar gael iddynt a sut i gael gafael ar y wybodaeth gywir.

Weithiau bydd teithwyr a allai ddefnyddio dulliau trafnidiaeth amgen yn cael eu hatal rhag gwneud hynny, hyd yn oed unwaith yr wythnos, oherwydd eu hofnau ynglŷn ag ymarferoldeb trefniadau beunyddiol.

Mae Tîm Polisi'r Cyngor wedi paratoi taflen sy'n helpu i ateb yr ofnau hynny ac yn darparu cyngor defnyddiol ac ymarferol

ynglŷn â sut i wneud cyfraniad cadarnhaol i'n hamgylchedd lleol.

Mae Tîm Polisi'r Cyngor wedi paratoi taflen sy'n helpu i ateb yr ofnau hynny ac yn darparu cyngor defnyddiol ac ymarferol ynglŷn â sut i wneud cyfraniad cadarnhaol i'n hamgylchedd lleol.

Mae'n cydategu'r gyfres o daflenni a baratowyd i gefnogi Rhaglen Cynllunio Teithio'r Cyngor a'i waith i annog gweithwyr Cyngor Caerdydd i ymgymryd â gweithgarwch corfforol.

Heol Eglwys Fair

Efallai eich bod wedi sylwi bod Heol Eglwys Fair yng nghanol Caerdydd bellach ar gau i gerbydau preifat o 12 y prynhawn ymlaen.

Mae'r cynllun wedi darparu cyfleoedd ychwanegol i seiclwyr gyrraedd a chroesi canol y dref, heb gael eu dal yn y tagfeydd a fu'n nodwedd mor gyffredin gynt yng nghanol y ddinas.

Mae'r traffig a ganiateir i ddefnyddio'r stryd yn ystod y dydd yn cynnwys seiclwyr, tacsis a gwasanaethau bws rheolaidd.

Rheolau Newydd y Ffordd Fawr ar gyfer Defnyddwyr y Ffordd! Ydych chi ychydig yn ansicr am reolau'r ffordd fawr? Efallai nad ydych wedi arfer seiclo a cherdded? Darllenwch Rheolau'r Ffordd Fawr i wella eich gwybodaeth a sgiliau. Ar gael ar www.highwaycode.gov.uk



A wyddech chi:
Dyma lun o'r llinell wen gyntaf i gael ei gosod yn y DU. Paentiwyd y llinell ar stryd yn Llundain fel arbrawf i reoli tagfeydd, a oedd wedi mynd yn ddifrifol iawn.

GWYBODAETH DDEFNYDDIOL:

Gwybodaeth am Ddiogelwch y Ffyrdd:
www.roadsafety.cardiff.gov.uk

Cwmnïau Teithio:
Bws Caerdydd: www.cardiffbus.com
Trenau Arriva: www.arrivatrainswales.co.uk
Rhwydwaith National Rail: www.nationalrail.co.uk (ffôn 08457 48 49 50)

Cynllunio ar gyfer Teithio:
Traveline Cymru: www.traveline-cymru.org.uk

Ffynonellau Eraill:
Dolenni Teithio y BBC:
www.bbc.co.uk/wales/southeast/travel

Gwybodaeth am ysgrifennu Cynlluniau Teithio:
Gwefan: www.cardiff.gov.uk/travelplans - E-bost: travelplans@cardiff.gov.uk

Gwybodaeth am Strategaeth Drafnidiaeth y Cyngor: www.keepingcardiffmoving.co.uk